

Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23 a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2026-27, ac adroddiad blynyddol 2020-21

Tachwedd 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddPLI

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPLI@senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23 a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2026-27, ac adroddiad blynyddol 2020-21

Tachwedd 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddPLI

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
David Rees AS
Llafur Cymru



Rhys ab Owen AS
Plaid Cymru



Janet Finch-Saunders AS
Ceidwadwyr Cymreig



Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Casgliadau ac Argymhellion	5
1. Cyflwyniad.....	6
Cyd-destun cefndirol i'r gwaith craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol.....	6
Gofynion am Adroddiad Blynyddol gan Bwyllgor y Llywydd	9
2. Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23.....	10
Cymhariaeth â'r amcangyfrif ariannol ar gyfer 2021-22	10
Pennu costau y gellir eu priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru.....	12
Monitro'r amser y mae staff yn ei dreulio ar waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru.....	13
Effaith pandemig COVID-19	14
Ymateb i bolisi etholiadau a'r agenda diwygio etholiadol yng Nghymru	15
3. Cynllun pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23 i 2026-27.....	18
4. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2021-22	21
Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol	21
Trafod Bil Etholiadau Llywodraeth y DU	21
Atodiad A: Yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2022-23	23

Casgliadau ac Argymhellion

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2022-23 yn gyson â'r angen i'r Comisiwn Etholiadol arfer ei swyddogaethau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.
..... Tudalen 17

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y cynllun pum mlynedd a gyflwynwyd yn gyson â'r angen i'r Comisiwn Etholiadol arfer ei swyddogaethau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, sy'n cynnwys swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru..... Tudalen 19

Argymhelliad 1. Dylai'r Comisiwn Etholiadol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw gyllid ychwanegol y gallai fod ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 i dalu am gostau ychwanegol sy'n deillio o'r pandemig.
..... Tudalen 15

Argymhelliad 2. Dylai'r Comisiwn Etholiadol adolygu'r mesurau perfformiad sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun pum mlynedd newydd i sicrhau eu bod yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud yn benodol ag amcanion ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru.
..... Tudalen 20

1. Cyflwyniad

Dylid darllen yr adroddiad hwn fel:

- adroddiad Pwyllgor y Llywydd ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23; ac
- adroddiad blynyddol Pwyllgor y Llywydd ar gyfer 2021-22.

Cyd-destun cefndirol i'r gwaith craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol

1. Caiff gwaith y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau a refferenda datganoledig Cymru ei gyllido gan Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Pwyllgor y Llywydd yn gyfrifol am graffu ar faint o arian y gofynnir amdano yn yr amcangyfrifon ariannol a gyflwynir i'r Pwyllgor bob blwyddyn gan y Comisiwn Etholiadol at y diben hwn. Mae Pwyllgor y Llywydd hefyd yn gyfrifol am graffu ar gynlluniau pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud â'i waith ar etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru.

2. Yn ôl Rheolau Sefydlog 20.20A a 20.20B y Senedd:

"Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol gyflwyno amcangyfrif o'i incwm a'i wariant y gellir ei briodoli i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig yng Nghymru, fel sy'n ofynnol o dan baragraff 16A o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, i Bwyllgor y Llywydd o dan Reol Sefydlog 18B.2 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ond erbyn 1 Hydref fan bellaf." (20.20A)

"Rhaid i Bwyllgor y Llywydd:

- ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru ac ystyried unrhyw gyngor a roddwyd iddo ganddynt, a;*

ii. *ar ôl rhoi sylw i unrhyw adroddiadau a wnaed iddo gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ac unrhyw argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau;*

ystyried a gosod gerbron y Senedd, heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, adroddiad yn cynnwys yr amcangyfrif, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y Pwyllgor, ar ôl iddo ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ganddo.”¹ (20.20B)

3. Ar adegau penodol (h.y. yn dilyn etholiad Senedd neu ar gais Pwyllgor y Llywydd ('y Pwyllgor')) rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ('y CE') hefyd gyflwyno i'r Pwyllgor gynllun pum mlynedd yn pennu nodau ac amcanion y CE sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig a refferenda datganoledig Cymru yn y cyfnod o bum mlynedd i ddod.

4. Rhaid i'r Pwyllgor graffu ar unrhyw amcangyfrifon a chynlluniau a gyflwynir iddo gan y Comisiwn Etholiadol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â rôl y CE o ran cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru yn effeithlon ac yn effeithiol.

5. Os nad yw'r Pwyllgor yn fodlon ag amcangyfrif ariannol neu gynllun pum mlynedd a gyflwynwyd iddo gan y CE, rhaid i'r Pwyllgor addasu'r amcangyfrif neu'r cynllun.

6. Yna, bydd yr amcangyfrif a osodir gan y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 20.20B yn ymddangos yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol, i'w gytuno gan y Senedd.²

Cyflwyno amcangyfrif ariannol y CE ar gyfer 2022-23 a'r cynllun pum mlynedd ar gyfer 2022-23 hyd at 2026-27

7. Cyflwynodd y CE ei **amcangyfrif ariannol ar gyfer 2022-23 a'r cynllun pum mlynedd ar gyfer Cymru 2022-23 hyd at 2026-27**³ i'r Pwyllgor ar 27 Medi 2021.

8. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 18 Hydref 2021 i graffu ar yr amcangyfrif a'r cynllun. Roedd y cynrychiolwyr canlynol o'r Comisiwn Etholiadol yn bresennol:

- Yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens CBE (Comisiynydd Etholiadol Cymru)

¹ Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog 20.20A a 20.20B.

² Gweler **Rheol Sefydlog** 20 am esboniad o broses gyllidebol y Senedd.

³ Y cynllun pum mlynedd a gyflwynwyd yw Cynllun Corfforaethol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer Cymru ar gyfer 2022-23 i 2026-27.

- Bob Posner (Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu)
- Kieran Rix (Cyfarwyddwr Cyllid)
- Rhydian Thomas (Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru)

9. Er mwyn helpu'r Pwyllgor gyda'i waith craffu ar amcangyfrifon a chynlluniau'r Comisiwn Etholiadol, rhaid i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol⁴ gynnal archwiliad gwerth am arian ynghylch defnydd y Comisiwn Etholiadol o adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau yn ymwneud ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru, a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor. Cafodd memorandwm ar sut y mae'r Comisiwn Etholiadol wedi rheoli ei rôl wrth ymgysylltu â phleidleiswyr ifanc yn etholiadau Senedd 2021 ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ar 1 Hydref 2021.⁵

10. Rhaid i'r Pwyllgor ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar unrhyw amcangyfrifon a chynlluniau a gyflwynir iddo gan y Comisiwn Etholiadol, a rhaid iddo roi sylw i unrhyw gyngor a ddarperir gan Weinidogion Cymru, cyn penderfynu a yw'n fodlon â'r amcangyfrifon a'r cynlluniau. Rhannodd y Pwyllgor amcangyfrif y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23 a'r cynllun pum mlynedd gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 27 Medi 2021. Ar 5 Hydref, cafwyd cyngor y Gweinidog.⁶

Cytuno ar Ddatganiad Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid

11. Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi cyhoeddi cyfres o egwyddorion, mewn **Datganiad o Egwyddorion**, ac mae'n disgwyl i gyrrff a gyllidir yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru roi sylw i'r egwyddorion hyn wrth wneud cynigion cyllidebol e.e. y dylid gosod ceisiadau am Gyllideb yng nghyd-destun y sefyllfa gyllido hirdymor yng Nghymru a'r pwysau ariannol yn y sector cyhoeddus ehangach. Mae'r CE yn un o'r cyrrff hynny y gofynnwyd iddo lynu wrth yr egwyddorion hyn wrth baratoi ei amcangyfrif ariannol ar gyfer 2022-23.

⁴ Y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn y Deyrnas Unedig yw swyddog y llywodraeth sy'n gyfrifol am oruchwylio ansawdd cyfrifyddu cyhoeddus ac adroddiadau ariannol. Mae'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn swyddog i Dŷ'r Cyffredin, ac ef yw pennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sef y corff sy'n craffu ar wariant adrannau'r llywodraeth a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus.

⁵ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **National Audit Office Memorandum: Progress in Engaging Young Voters in Wales**. 1 Hydref 2021

⁶ Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, **Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**, 5 Hydref 2021.

12. Ar 11 Hydref 2021, cytunodd Pwyllgor y Llywydd hefyd i fabwysiadu datganiad egwyddorion y Pwyllgor Cyllid, i fod yn sylfaen i'w waith craffu ar amcangyfrifon ariannol y CE.⁷ Nododd y Pwyllgor hefyd ohebiaeth a anfonodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid yn nodi amryw ffactorau i lywio gwaith Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol wrth gynllunio eu cyllideb yn y dyfodol, gan gynnwys asesiad gorau'r Llywodraeth o lefel y cyllid sydd ar gael yn y blynyddoedd i ddod.⁸

Gofynion am Adroddiad Blynyddol gan Bwyllgor y Llywydd

13. Mae paragraff 20B o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor y Llywydd gyflwyno adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau.

14. Fel y nodwyd uchod, dylid darllen yr adroddiad hwn hefyd fel adroddiad blynyddol Pwyllgor y Llywydd ar gyfer 2021-22, sydd wedi ei lunio cyn diwedd y flwyddyn ariannol gan nad yw'r Pwyllgor yn rhagweld y bydd unrhyw swyddogaethau yn cael eu harfer ymhellach ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

15. Bydd adroddiad blynyddol atodol yn cael ei lunio os bydd y Pwyllgor yn ystyried materion eraill yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol hon.

⁷ Yn ogystal, nododd y Pwyllgor ohebiaeth a anfonodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyllid

⁸ Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, **Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**, 2 Awst 2021.

2. Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23

Mae'r bennod hon yn crynhoi gwaith craffu'r Pwyllgor ar amcangyfrif ariannol y CE ar gyfer 2022-23.

16. Cyfanswm yr **amcangyfrif** a gyflwynwyd gan y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 yw £1.419 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 18.9 y cant o'i gymharu â'r amcangyfrif ar gyfer 2021-22. Mae'r amcangyfrif yn Atodiad A.

Cymhariaeth â'r amcangyfrif ariannol ar gyfer 2021-22

17. Mae'r CE wedi amcangyfrif mai cyfanswm ei gostau uniongyrchol (yn daliadau a heb fod yn daliadau) ar gyfer Cymru fydd £1.092 miliwn, gostyngiad o 23.2% o 2021-22. Mae hyn yn rhoi cyfrif am y rhan fwyaf o'r gostyngiad cyffredinol yn amcangyfrif 2022-23 o'i gymharu â 2021-22.

18. Pan holwyd Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y Comisiwn Etholiadol am y gostyngiad mewn costau uniongyrchol, eglurodd:

"Our budgets wave with the electoral cycle, and, obviously, we've just had very large set of elections, and we're then coming up to the local governmental elections for which the expenditure's a bit lower, so that's a perfectly natural wave effect as we go through the electoral cycle."⁹

19. Nododd y Pwyllgor, er gwaethaf gostyngiad cyffredinol mewn costau, bod llinell y gyllideb ar gyfer y costau uniongyrchol ynghlwm wrth weinyddu etholiadol Cymru yn 2022-23 wedi cynyddu £78,000 o'i gymharu â llinell gyfatebol y gyllideb yn amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22.¹⁰

20. Mewn gohebiaeth ddilynol, nododd y Comisiwn Etholiadol:

⁹ Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2021, paragraff 44

¹⁰ Yn adroddiad Pwyllgor y Llywydd ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22, nodwyd mai £230,000 oedd y costau uniongyrchol ynghlwm wrth weinyddu etholiadau Cymru yn llinell y gyllideb. Roedd y llinell gyfatebol wedi codi i £308,000 yn yr amcangyfrifon ar gyfer 2022-23.

"[the £78,000] refers to an increase in Wales staff time on overall proposed activity in the 2022-23 financial year including:

- *The development of new Performance Standards for Returning Officers*
- *Supporting the potential legislative programme relating to Senedd and local government elections*
- *Increased work with external partners and stakeholder groups; and*
- *Welsh language awareness work and translation.*"¹¹

21. Yn ogystal, roedd yr amcangyfrifon yn cynnwys £93,000 i dalu costau dwy rôl staff newydd (rôl Uwch-swyddog Cyfathrebu a rôl Uwch-swyddog Polisi).¹²

22. Wrth ymateb i gwestiwn ar y cynnydd hwn dywedodd Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru:

"The direct costs are slightly higher due to what we now know, which we didn't know last year, relating to devolved Welsh activity. On reform, for example, we're all now aware that there'll be new work around reform of the Senedd, linked to the announcement a few weeks ago, and there'll be additional areas of work linked to next year's elections on electoral pilots, for example, as well as wider reform from Welsh Government. So, the budget really is intended to ensure that we can adequately resource that.

There's also additional activity relating to new voters and education...as well as new performance standards for returning officers that we're expecting to lay in December of next year, which has been brought forward. So, all of this will require relevant resource from across the Commission."¹³

¹¹ Y Comisiwn Etholiadol, Ymateb i gwestiynau dilynol ar Amcangyfrif Ariannol y Comisiwn Etholiadol, 28 Hydref 2021.

¹² Mae costau'r swyddogion i'w gweld yn Ymateb y Comisiwn Etholiadol i gwestiynau dilynol ar Amcangyfrif Ariannol y Comisiwn Etholiadol, 28 Hydref 2021.

¹³ Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2021, paragraff 47 a 48

Pennu costau y gellir eu priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru

23. Ystyriodd y Pwyllgor pa mor gywir yr oedd y CE wedi gallu gwahanu costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i reoleiddio a chefnogi'r gwaith o gynnal etholiadau datganoledig Cymru oddi wrth gostau eraill, ac a oedd yr amcangyfrif ar gyfer 2022-23 yn cynnwys unrhyw gostau na ddylid eu priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r amcangyfrif ar gyfer 2022-23 yn cynnwys costau ar gyfer "cofrestru ac adrodd" gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â chofrestru manylion plaid yn flynyddol, sy'n un o swyddogaethau'r CE a gedwir yn ôl i Senedd y DU.

24. Wrth drafod y mater hwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol:

"A lot of the registration and reporting costs are about support for Rhydian [Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru] and his team when they're dealing with parties, rather than the actual process of doing the registration itself. So, it's only the devolved functions that would be charged to those budgets."

"The overwhelming majority is going to the UK budget, but Rhydian's team are involved in trying to support parties, giving advice and that sort of thing, as well as advice coming direct from the reporting and registration teams. From time to time, Rhydian's team need some support and help from the centre to undertake their work on this. Rhydian's team is a multi-functional team; it does all aspects of the Commission in Wales to at least some degree, so they need some support from our specialists from time to time, and that's what this represents. The actual process is being paid for elsewhere."¹⁴

Barn y Pwyllgor

25. Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r sicrwydd a ddarperir gan y CE bod yr holl gostau uniongyrchol sydd wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2022-23 yn ymwneud â gwaith y CE mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru ac y dylid eu priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru.

¹⁴ Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2021, paragraff 62

Monitro'r amser y mae staff yn ei dreulio ar waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru

26. Wrth ymateb i gwestiwn ar yr hyn yr oedd y Comisiwn Etholiadol wedi'i ddysgu o'r costau a gyfyd wrth baratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021, dywedodd Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru:

"...we met with every single team across the Commission on a number of occasions to determine what planned devolved activity fell into the financial year, in terms of staff time on specific projects.

"...for example, with our monitoring team in London, one area of work was ending dual reporting for Members of the Senedd. So, we talked to them about what resource in terms of staff time was required to fund that specific activity. And we replicated that discussion with every single team across the organisation"¹⁵

27. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y CE:

"...what we're seeing is what we planned, and we didn't see any significant divergence from what we planned. So, while we don't keep a very detailed record of staff time, because it's not cost-effective, we are able to assure what we've seen"¹⁶

28. Cynigiodd y CE sicrwydd i'r Pwyllgor fod y fethodoleg a ddefnyddir i fonitro'r amser y mae staff yn ei dreulio ar waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru wedi bod yn gywir a bod y CE yn bwriadu adolygu'r cywirdeb hwn yn barhaus.

Barn y Pwyllgor

29. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cymhlethdod o amcangyfrif sut y mae staff yn rhannu eu hamser rhwng gwahanol agweddau ar waith y Comisiwn, er mwyn cyfrifo'r costau i'w cynnwys yn yr amcangyfrif. Er bod y fethodoleg a ddefnyddir yn ymddangos yn drylwyr, mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r CE y dylid adolygu cywirdeb amcangyfrifon costau staffio yn aml i sicrhau system fonitro gadarn y mae modd ei harchwilio.

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2012, paragraff 24

¹⁶ Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2021, paragraff 27

Effaith pandemig COVID-19

30. Awgrymodd Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu y CE nad oedd y pandemig hyd yma wedi esgor ar faich ariannol ychwanegol sylweddol ar y CE:

*"...in practice, what happened in the elections we've just had, the Senedd elections, is that we were able to manage those extra costs as a Commission without extra funding. Clearly, that was a very different story for local authorities on the front line delivering the polls, but, for us, we were able to actually—to do our guidance and our approach generally, we didn't require extra funding. And when you look at our plan going forward, we're planning on an assumption forward that, actually, we won't need to ask for extra funding."*¹⁷

31. Fodd bynnag, ychwanegodd:

*"It is, of course, always possible if, for example, late in the day, in the run-up to an election, there was a major change in Government policy in Wales and there was perhaps a need for a major public awareness campaign, or something like that, around COVID—. At that point in time, it is possible we would require extra funding but...that doesn't seem a reasonably foreseeable situation at the moment."*¹⁸

32. Ychwanegodd Pennaeth y CE yng Nghymru:

*"We based the budget for this financial year on what we were expecting, and it was very difficult to try and answer the question as to what we were expecting, due to the pandemic...We were kept abreast of developments at every single opportunity, so that—you know, if changes were required, it was made clear to us that those changes would be adequately resourced by Welsh Government... we were able to deliver the elections as we had expected to do. There weren't any significant changes in terms of actually working."*¹⁹

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2021, paragraff 67

¹⁸ Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2021, paragraff 67

¹⁹ Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2021, paragraff 72

33. Dywedodd y CE fod y ffaith nad oedd angen cyllid ychwanegol mewn perthynas ag etholiad y Senedd yn 2021 i dalu costau ychwanegol sy'n deillio o'r pandemig wedi'i adlewyrchu wrth baratoi'r amcangyfrif ariannol ar gyfer 2022-23.

Barn y Pwyllgor

34. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith sydd wedi ei wneud gan y Comisiwn Etholiadol i sicrhau bod etholiadau'r Senedd yn 2021 yn cael eu cynnal ddiogel mewn amodau heriol.

Argymhelliad 1. Dylai'r Comisiwn Etholiadol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw gyllid ychwanegol y gallai fod ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 i dalu am gostau ychwanegol sy'n deillio o'r pandemig.

Ymateb i bolisi etholiadau a'r agenda diwygio etholiadol yng Nghymru

35. Mae diwygiadau deddfwriaethol diweddar wedi gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol yng Nghymru o 18 i 16. Pan ofynnwyd i Bennaeth y CE yng Nghymru am y gwaith ymgysylltu y mae'r CE wedi ei wneud â phobl ifanc mewn perthynas â'u hawliau pleidleisio, dywedodd:

*"Ahead of the 2022 local government elections, we want to develop and extend the education programme that we've just started, building on the work that we've managed to undertake already. We want to engage with young people and educators across Wales. We're in the process, for example, of establishing a network of young people in Wales, who we hope will be able to actively inform our education work, to ensure that we're responding in the appropriate way that they would like us to."*²⁰

36. Mae hyn yn cefnogi'r ymrwymiad a wneir yng nghynllun pum mlynedd y CE ar gyfer Cymru o 2022/23 hyd at 2026/27:

"Yn sgil ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed ac i wladolion tramor sy'n byw yng Nghymru, byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod pleidleiswyr newydd yn deall eu cymhwysedd a'u bod yn gallu cymryd rhan yn hyderus yn etholiadau llywodraeth leol 2022 ac etholiad y Senedd 2026.

Byddwn hefyd yn gweithio ochr yn ochr â phob partner perthnasol i hyrwyddo mwy o gysondeb mewn addysg wleidyddol, a meithrin

²⁰ Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2021, paragraff 100

gwybodaeth a dealltwriaeth wleidyddol ymhlith pobl ifanc er mwyn sicrhau y gallant ymgysylltu'n llawn â'n system ddemocrataidd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys datblygu'r gwaith da a wnaed eisoes wrth gyhoeddi adnoddau addysgol a datblygu rhaglen addysg a dysgu ymhellach yng Nghymru.”²¹

37. Roedd **Memorandwm** y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ar y ffordd y mae'r Comisiwn Etholiadol wedi rheoli ei rôl wrth gynnwys pleidleiswyr ifanc yn etholiadau Cymru yn 2021²² yn ystyried strategaeth ac amcanion y Comisiwn i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc, sicrhau eu bod wedi cofrestru a'u bod am fwrw eu pleidlais yn etholiadau 2021. Daeth y Memorandwm i'r casgliad:

“Defnyddiodd y Comisiwn y gwaith a wnaeth eisoes a'r gwersi a ddysgwyd i helpu i ddylunio ei amcanion. Mae'r amcanion hyn yn glir ac wedi'u diffinio'n dda. Fe wnaeth y Comisiwn hefyd gymryd camau priodol i helpu i wella'r wybodaeth a'r eglurder yn y broses etholiadol a rhoi sylw i'r diffyg cysylltiad rhwng pleidleiswyr a'r broses etholiadau.”

38. Nododd hefyd:

“Roedd gan y Comisiwn darged o gynhyrchu o leiaf 50,000 o geisiadau gan bleidleiswyr newydd yng Nghymru yn ystod yr ymgyrch. Rhagorodd ar ei darged gyda'r data terfynol yn dangos 71,562 o geisiadau gan bleidleiswyr newydd, gan gynnwys 7,704 o geisiadau gan bobl ifanc 16-17 oed.”²³

39. Rhagwelir y bydd diwygio etholiadol pellach yng Nghymru yn y dyfodol. Mae **Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2026** yn cynnwys ymrwymiad i “ddiwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd.”²⁴ Disgwylir y bydd diwygiadau peilot yn etholiadau llywodraeth leol Cymru yn 2022, a hynny fel ffordd o dreialu rhai diwygiadau.

²¹ Comisiwn Etholiadol, Cynllun Corfforaethol i Gymru 2022/23 i 2026/27, t.14

²² Y cynnydd a wnaed i ennyn diddordeb pleidleiswyr ifanc yng Nghymru – Hydref 2021

²³ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Y cynnydd a wnaed i ennyn diddordeb pleidleiswyr ifanc yng Nghymru: Y Comisiwn Etholiadol, t.12

²⁴ Llywodraeth Cymru, **Rhaglen Lywodraethu 2021-2026**

40. Yn ystod yr un cyfnod, efallai y bydd hefyd ddiwygiadau i etholiadau'r Senedd. Byddai gan unrhyw newidiadau o'r fath i etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Senedd yng Nghymru oblygiadau i waith y CE.

41. Nododd y Pwyllgor gyngor y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2022-23, wrth iddo ddweud:

*"...bod y gweithgareddau a ddisgrifir gan y Comisiwn Etholiadol yn yr amcangyfrif a'r cynllun pum mlynedd yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer beth sy'n ofynnol yn ystod y cyfnodau dan sylw, a'r etholiadau arfaethedig yn ystod y cyfnodau hynny."*²⁵

42. Dywedodd Pennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru nad yw union natur y diwygiadau etholiadol peilot sydd i'w cynnal yn 2022 yn hysbys eto:

"What we don't know is the exact nature of the pilots: exactly how many authorities will be undertaking work, what the pilots will look like, what exactly will our evaluation of those pilots look like. So, we don't expect it to be anything that will require us to ask for a huge amount of additional money. Indeed, I think everything is there already. But it's very much dependent on what Welsh Government, and indeed the Senedd, looks to introduce."

Barn y Pwyllgor

43. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith y mae'r CE wedi ei wneud wrth ymateb i ddiwygiadau etholiadol diweddar, fel y soniwyd gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, i gynllunio ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol ac i sicrhau bod etholiadau datganoledig Cymru yn cael eu cynnal yn effeithiol yng ngoleuni diwygiadau o'r fath.

44. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r CE y dylai Llywodraeth Cymru, cyn gynted â phosibl, ddarparu manylion ynghylch trefniadau peilot ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022, fel sydd eu hangen i weinyddwyr etholiadol a'r CE allu cynllunio'n effeithiol ar gyfer rhoi'r trefniadau ar waith.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2022-23 yn gyson â'r angen i'r Comisiwn Etholiadol arfer ei swyddogaethau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.

²⁵ **Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 5 Hydref 2021**

3. Cynllun pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23 i 2026-27

Mae'r bennod hon yn crynhoi gwaith craffu'r Pwyllgor ar gynllun pum mlynedd y CE ar gyfer 2022-23 i 2026-27.

45. Cyflwynodd y CE ei gynllun pum mlynedd i Gymru 2022/23 i 2026/27 ochr yn ochr â'i amcangyfrif ariannol ar gyfer 2022-23. Mae'r cynllun pum mlynedd yn amlinellu pum amcan strategol y Comisiwn ar gyfer ei waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru:

- Cofrestru a phleidleisio hygyrch;
- Ymgyrchu gwleidyddol tryloyw a chyllid gwleidyddol sy'n cydymffurfio;
- Gwasanaethau etholiadol lleol cydnerth;
- Cyfraith etholiadol deg ac effeithiol;
- System etholiadol fodern a chynaliadwy.

46. Yn y Bumed Senedd, argymhellodd Pwyllgor y Llywydd y dylai cynllun pum mlynedd y CE gynnwys cymaint o fanylion â phosibl am y modd y bydd swyddogaethau'r CE mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru yn cael eu harfer yn ystod cyfnod y cynllun, gan gynnwys costau, amserlenni a cherrig milltir ar gyfer y gwaith hwn.²⁶ Argymhellodd y Pwyllgor hwnnw hefyd fod "y cynllun pum mlynedd newydd yn nodi mesurau perfformiad sy'n benodol i gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru".²⁷

47. Wrth gael ei holi i ba raddau y mae'r mesurau perfformiad sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun pum mlynedd newydd yn rhai penodol i Gymru, dywedodd Prif Weithredwr y CE:

²⁶ Pwyllgor y Llywydd, Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22 a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2024-25, Argymhelliad 4, Tachwedd 2020

²⁷ Pwyllgor y Llywydd, Craffu ar amcangyfrif ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22 a'i gynllun pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2024-25, Argymhelliad 5, Tachwedd 2020

*"There are ones in there about performance standards around local electoral services and so forth. Well, those will be very much targeted around the Welsh local authorities, the Welsh returning officers and electoral registration officers, and so, in that sense, they are very Welsh orientated, and they will feel very different to other parts of the UK where there are different issues and different pressures on those local authorities."*²⁸

48. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod: "we are still fine-tuning and we're going to come back to what our precise targets are and what our stretch targets are".

49. Ychwanegodd Pennaeth y CE yng Nghymru:

*"...man cychwyn yw'r safonau neu'r KPIs yma, ac rydym ni eisiau clywed wrthyh chi ac wrth eraill i weld sut allwn ni wella ar beth sydd wedi ei gynig yn barod."*²⁹

Barn y Pwyllgor

50. Roedd y cynllun pum mlynedd a gyflwynwyd y llynedd yn Gynllun Corfforaethol ar draws y DU ar gyfer y CE. Mae'r Pwyllgor yn falch bod y cynllun pum mlynedd a gyflwynwyd eleni yn canolbwyntio'n fwy penodol ar amcanion y CE ar gyfer ei waith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru, fel sy'n ofynnol gan baragraff 16B(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

51. Er ein bod yn cydnabod bod rhai o fesurau perfformiad y CE ar draws y DU yr un mor berthnasol i Gymru ag y maent i rannau eraill o'r DU, byddai mesurau perfformiad ychwanegol sy'n benodol i waith y CE mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru yn ddefnyddiol wrth fesur llwyddiant gwaith o'r fath (e.e. gwaith ymgysylltu'r CE â phleidleiswyr ifanc a gwladolion tramor yng Nghymru).

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y cynllun pum mlynedd a gyflwynwyd yn gyson â'r angen i'r Comisiwn Etholiadol arfer ei swyddogaethau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, sy'n cynnwys swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymru.

²⁸ Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2021, paragraff 121

²⁹ Cofnod y Trafodion, 18 Hydref 2021, paragraff 122

Argymhelliad 2. Dylai'r Comisiwn Etholiadol adolygu'r mesurau perfformiad sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun pum mlynedd newydd i sicrhau eu bod yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud yn benodol ag amcanion ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru.

4. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2021-22

Mae'r bennod hon ymdrin ag adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar y ffordd y mae wedi arfer ei swyddogaethau.

Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol

52. Ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, roedd y Pwyllgor wedi cyfarfod ddwywaith ac nid oedd yn bwriadu cyfarfod eto yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22.

53. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 11 Hydref 2021 i gael briff technegol ynghylch swyddogaethau'r Pwyllgor, ac i baratoi i graffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22. Cyfarfu ar 18 Hydref i graffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22.

54. Mae gwaith y Pwyllgor o ystyried amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021-22 wedi'i nodi ym mhenodau blaenorol yr adroddiad hwn.

Trafod Bil Etholiadau Llywodraeth y DU

55. Yn ystod ei gyfarfodydd ar 11 a 18 Hydref, bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried llythyr gan Weinidog Cyfansoddiad a Datganoli y DU ynghylch Bil Etholiadau Llywodraeth y DU.³⁰ Yn wreiddiol, roedd y llythyr yn gofyn am farn y Llywydd ar Fil Etholiadau Llywodraeth y DU, ond fe'i cyfeiriwyd wedyn at Bwyllgor y Llywydd i'w ystyried.

56. Dywedodd y Pwyllgor fod y Bil yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i Lywodraeth y DU gyhoeddi Datganiadau Strategaeth a Pholisi a allai ymwneud ag arfer swyddogaethau datganoledig y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â Chymru. Gan yr ymddangosai fod hyn yn esgor ar risg o wrthdaro â chyfrifoldebau Pwyllgor y Llywydd mewn perthynas â chynlluniau pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol, nododd y Pwyllgor wrth ymateb³¹ y byddai'n briodol i'r Bil gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i ymgynghori â'r Pwyllgor cyn cyhoeddi unrhyw Ddatganiadau o'r fath. Dywedodd y Pwyllgor hefyd nad oedd ei ohebiaeth yn cynnwys rhagdybiaeth mewn perthynas â phenderfyniad y Senedd o ran

³⁰ Y Gweinidog Gwladol dros y Cyfansoddiad a Datganoli, **Llythyr gan Weinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros y Cyfansoddiad a Datganoli**, 5 Gorffennaf 2021.

³¹ Pwyllgor y Llywydd, **Llythyr at y Gweinidog Gwladol dros Godi'r Gwastad a Chydraddoldebau**, 18 Hydref 2021.

cydsynio i'r Bil, o gofio bod amrywiol ddarpariaethau yn y Bil yn ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli i'r Senedd.

Atodiad A: Yr amcangyfrif ariannol ar gyfer 2022-23

Amcangyfrif Blynyddol 2022-23: Y Comisiwn Etholiadol, Cymru		
Costau'r Senedd	2022-23 (£000)	Sylwadau
Costau Uniongyrchol (tâl a di-dâl)		
Gweinyddu Etholiadol		
Cymru	308	<p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau cefnogi a pharatoi ar gyfer cynnal yr Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 2022. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a chyflwyno canllawiau ar-lein a darparu adnoddau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid, Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol. Byddwn yn defnyddio ein safonau perfformiad gan ymgysylltu â Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gefnogi a herio'r modd y maent yn cyflawni digwyddiadau a gweithgareddau etholiadol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r gymuned etholiadol yng Nghymru trwy'r amryw grwpiau rhanddeiliaid rydym yn eu rheoli, er enghraifft Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a Phanel Pleidiau'r Senedd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i roi cyngor a barn arbenigol wrth i ddiwygiadau etholiadol, megis cynlluniau peilot, gael eu datblygu. Bydd tîm Cymru hefyd yn rhoi adnoddau a chymorth i brosiectau sy'n cael eu cynnal y tu allan i Gymru (e.e. ar adrodd deuol) ond sy'n cael effaith uniongyrchol ar etholiadau datganoledig. Byddwn yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldeb statudol drwy fodloni Safonau'r Gymraeg a osodir gan</p>

		Gomisiynydd y Gymraeg, a byddwn yn arwain ac yn cynorthwyo aelodau o'r Comisiwn ehangach i sicrhau bod ein hymrwymadau i'r Gymraeg yn cael eu cynnal.
Cefnogaeth	47	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau monitro a chefnogi gwaith y Swyddogion Canlyniadau a'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru ar gyfer 2022-23, gan wneud gwaith ailddatblygu ac ymgynghori hanfodol ar set newydd o safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau, sydd i'w gosod i'r Senedd yn ystod y flwyddyn ariannol.
Canllawiau	44	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau cefnogi'r Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 2022. Byddwn yn rhoi cyngor mewn ymateb i ymholiadau gan Swyddogion Canlyniadau/ Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol drwy gydol y flwyddyn, ond enwedig cyn, yn ystod ac ar ôl yr etholiad.
Adnodd newydd ar gyfer etholiadau datganoledig	93	Mae hyn yn cynrychioli costau dau aelod o staff a fydd yn cael eu cyflogi i gefnogi'r gwaith o gynnal rhaglen diwygio etholiadol helaeth Llywodraeth Cymru a'r Senedd - gan sicrhau bod y ddeddfwriaeth gymhleth hon yn glir ac yn ymarferol - yn ogystal â hyrwyddo ein rhaglen addysg i bleidleiswyr, a phobl ifanc yn benodol.
	492	
Cyfreithiol		

Cyfreithiol	115	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau darparu cefnogaeth gyfreithiol i swyddogaethau cyngor, canllawiau a rheoleiddio'r Comisiwn, a chyngor cyfreithiol cyfamserol cyn, yn ystod ac ar ôl yr Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 2022. Mae hefyd yn cynnwys cefnogi rheoleiddio ar ôl y bleidlais a datblygu unrhyw argymhellion polisi, yn ogystal â rhoi cyngor cyfreithiol cyffredinol a chyfredol ar ddeddfwriaeth Cymru, a chefnogi swyddogaethau'r Comisiwn fel y bônt yn ymwneud â Chymru (gan gynnwys cofrestru, rheoleiddio, polisi, gweinyddu etholiadol, llywodraethu a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg).
Rheoleiddio		
Cofrestru ac adrodd	41	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â'r adroddiadau statudol sydd eu hangen gan bleidiau gwleidyddol yng Nghymru, megis adroddiadau rhoddion a benthyciadau chwarterol, cofrestrïadau blynyddol manylion pleidiau a chyflwyniadau blynyddol Datganiadau o Gyfrifon. Mae tîm Cymru yn rhoi cymorth i bleidiau drwy bob un o'r prosesau hyn, ac rydym yn cyhoeddi'r data ariannol sy'n gysylltiedig â'r cyflwyniadau hyn.
Monitro a gorfodi	39	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith cydymffurfio a gorfodi sy'n deillio o bleidiau ac ymgyrchwyr yng Nghymru. Mae ein gwaith monitro yn cynnwys adolygu gweithgarwch ymgyrchu, a chynnal gwaith gorfodi os oes angen. Mae'r Comisiwn yn gweithio gydag endidau a reoleiddir, gan gynnwys pleidiau, ymgyrchwyr, ymgeiswyr ac aelodau etholedig i sicrhau

		<p>cydymffurfiaeth gyda'r rheolau er mwyn osgoi cymryd camau gorfodi. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Pwynt Cyswllt Sengl (SPOC) o fewn pob ardal Heddlu i roi cyngor ac arweiniad yn ystod cyfnod yr etholiad. Mae ein gwasanaethau cyngori ar gael i'n holl endidau a reoleiddir a'n holl rhanddeiliaid.</p>
		<p>Fel rhan o'n monitro a'n gorfodi, rydym yn gweithio gyda swyddogion y Senedd i ddod ag adrodd deul i ben yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ASau roi gwybod am roddion a benthyciadau dwywaith, i'r Senedd ac i'r Comisiwn Etholiadol Bydd dod ag adrodd deul i ben, fel sydd wedi digwydd yn San Steffan a Senedd yr Alban, yn lleihau'r baich gweinyddol sydd ar aelodau etholedig sy'n gorfod rhoi gwybod am yr un rhodd neu fenthyciad dwywaith i ddau gorff gwahanol.</p>
Cymorth rheoleiddiol	30	<p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu canllawiau gwariant, rhoddion ac adrodd ar ôl y bleidlais ar gyfer yr Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 2022. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn darparu sesiynau hyfforddiant i ymgeiswyr ac asiantiaid cyn yr etholiadau. Mae'r rhain yn cael eu cynnal yng nghynadledau'r pleidiau, yn sesiynau'r ymgeiswyr awdurdodau lleol ac yn seminarau pwrpasol y Comisiwn, a'u diben yw sicrhau lefelau uchel o gydymffurfedd gyda'r rheolau.</p>
		<p>Mae tîm Cymru hefyd yn rhoi cyngor a chanllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid cyn etholiadau, a bydd hyn yn cynnwys yr Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 2022. Rydym hefyd yn</p>

		rhoi'r un gwasanaeth cynghori i bleidiau, ymgyrchwyr ac aelodau etholedig drwy'r flwyddyn gyfan.
Cyfathrebu, polisi ac ymchwil	225	
Ymgyrchoedd a Hunaniaeth Gorfforaethol	126	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau tîm ymgyrchoedd y Comisiwn yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o sut y caiff eu hamser ei dreulio. Byddwn yn cynnal dau ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 2022 - ein hymgyrch 'Oes 5 'da ti' ar gyfer cofrestru i bleidleisio a'n hymgyrch etholfraint 'Croeso i Dy Bleidlais' ar gyfer pobl ifanc 16/17 mlwydd oed. Mae'r costau hyn yn cwmpasu gweithio gyda'n prynwr cyfrangau a hysbysebu cyfryngau cymdeithasol yn ystod pythefnos o weithgarwch ymgyrchu yn 2022-23, ochr yn ochr â chasglu data a chwblhau adroddiad gwerthuso terfynol ar ôl ymgyrchu. Byddwn hefyd yn ymgymryd â gwaith partneriaeth gydag ystod o sefydliadau democrataidd a thrydydd sector ar draws Gymru, gan eu hannog i ymgysylltu â'n hymgyrch, ein gwytodaeth i bleidleiswyr a'n deunyddiau addysg er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd grwpiau sydd newydd eu rhyddfrefnio, grwpiau sydd wedi'u tangofrestru a grwpiau sydd wedi'u hymddieithrio.
Cyfathrebu a dysgu digidol	61	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau tîm cyfathrebu a dysgu digidol y Comisiwn yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o sut y caiff eu hamser ei dreulio. Mae hyn yn cwmpasu adeiladu ar ein gwaith llythrennedd gwleidyddol presennol drwy ddatblygu ein hadnoddau addysg i gwmpasu mwy o gynnwys sy'n benodol i Gymru, gan gymryd i ystyriaeth y cyd-destun

		<p>addysgiadol ehangach yng Nghymru gan gynnwys y newidiadau i'r cwricwlwm cenedlaethol yn 2022; ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16-17 mlwydd oed a'r Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 2022. Byddwn hefyd yn ymgymryd â gwaith ymgynghori gydag amrywiaeth o athrawon, sefydliadau ieuencid a phobl ifanc ar draws Gymru er mwyn cael eu hadborth a'u mewnbwn ar ein hadnoddau i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn addas.</p>
Cyfathrebu allanol	59	<p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau tîm cyfathrebu allanol y Comisiwn (swyddfa'r wasg a materion cyhoeddus) yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o sut y caiff eu hamser ei dreulio. Mae hyn yn cwmpasu delio'n ymatebol gydag ymholiadau gan y wasg ac ymholiadau materion cyhoeddus; cynnal gwaith ymgysylltu rhagweithiol gyda'r cyfyngau yn ystod ein cyfnod ymgyrchu ac ar gyfer cyhoeddiadau rheoleiddiol arferol ac adroddiadau'r Comisiwn, a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd gydag Aelodau'r Senedd. Bydd cefnogaeth ar gyfer swyddfa'r wasg a materion cyhoeddus yn cael ei chynyddu ar gyfer gweithgarwch yn ymwneud ag agenda diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru, megis cynlluniau peilot.</p>
Ymchwil	67	<p>Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau tîm ymchwil y Comisiwn yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o sut y caiff eu hamser ei dreulio. Mae hyn yn cwmpasu rhaglen o ymchwil ar draws Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 2022 sy'n debygol o gynnwys: bwrw golwg blynyddol ar agweddau'r cyhoedd; casglu data ar gywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau</p>

		etholiadol, adolygu ymgeiswyr a chasglu adborth gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol.
Polisi	62	Mae hyn yn cynrychioli cyfran y Pwyllgor o gostau tîm polisi y Comisiwn yn seiliedig ar ein hamcangyfrif o sut y caiff eu hamser ei dreulio. Mae hyn yn cwmpasu dadansoddi ac adrodd ar yr Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 2022 er mwyn nodi tueddiadau a materion i'w hystyried gan wneuthurwyr polisi a dod â thystiolaeth a dadansoddiadau o rannau eraill y DU ac yn rhyngwladol at ei gilydd er mwyn llywio ein safbwyntiau ar gynigion penodol gan Lywodraeth Cymru.
	375	
Cyfanswm Costau Uniongyrchol	1092	
Costau Anuniongyrchol		
Adnodd	252	5% o gostau swyddfa gefn, gan gynnwys rhent, cyfraddau, TGCh, cyllid, Adnoddau Dynol a chostau rheoli
Dibrisiant	75	5% o'r dibrisiant ar gyfer gwariant cyfalaf, gan gynnwys uwchraddio'r system Cyllid Gwleidyddol a systemau eraill
	327	
Cyfanswm Costau Anuniongyrchol	327	
Cyfanswm cyfraniad	1,419	